

## Telerau ac amodau Ymweliadau Addysgol

### Pob Ymweliad

#### Trefnu Ymweliad

Mae'r broses o drefnu Ymweliad Addysgol â Senedd y DU yn agor bob tymor a gallwch wneud cais i drefnu ymweliad gan ddefnyddio'r [ffurflen ar-lein](#). I dderbyn hysbysiad am wybodaeth ynghylch ymweliad yn y dyfodol, cofrestrwch ar gyfer ein Cylchlythyr Addysg rheolaidd.

Mae slotiau ar gael y tu allan i'n cyfnodau safonol o drefnu ymweliad ac mae'r rhain yn cael eu

diweddarau ar ein tudalennau [ymweliadau byr rybudd](#) ynghyd â gwybodaeth sut i wneud cais. Bydd

maint y grŵp sy'n ymweld yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau canlynol:

- Ni all uchafswm nifer yr ymwelwyr (oedolion a phlant) fod yn fwy na 108 y flwyddyn
- Ni all isafswm nifer yr ymwelwyr (oedolion a phlant) fod yn llai na 17
- Mae'n rhaid cynnwys unrhyw athrawon neu gynorthwy-wyr sy'n oedolion (a fydd yn rhan o'r grŵp addysgol) yn eich cais yn y cymarebau hynny sy'n ofynnol isod;
- Os bydd eich grŵp addysgol yn cynnwys disgyblion rhwng 5 a 7 oed, bydd angen cymhareb 1:7 o athrawon neu gynorthwy-wyr sy'n oedolion i ddisgyblion yn unol â chanllawiau'r Adran Addysg a gofynion AAA;
- Os bydd eich grŵp addysgol yn cynnwys disgyblion rhwng 7 a 19 oed, bydd angen cymhareb o 1:15 o athrawon neu gynorthwy-wyr sy'n oedolion i ddisgyblion yn unol â chanllawiau'r Adran Addysg a gofynion AAA.
- Dylai grwpiau gynnwys uchafswm o 5 oedolyn i bob grŵp (cysylltwch â ni os yw hyn yn achosi problem i'ch grŵp).

Yn seiliedig ar gyfanswm yr ymwelwyr y gwneir cais amdanynt, byddwn yn pennu nifer y slotiau ymweld

a fydd yn ofynnol ar gyfer eich grŵp. Trefnir slotiau mor agos at ei gilydd â phosibl i geisio cadw amseroedd cychwyn a gorffen tebyg.

Ar ôl i gais am ymweliad gael ei brosesu, anfonir cadarnhad e-bost atoch ar gyfer pob slot sydd wedi'i archebu ar gyfer eich grŵp yn ogystal â gwybodaeth am Gymhorthdal

Teithio os byddwch yn gymwys.

Efallai y bydd yn bosibl ychwanegu ymwelwyr ychwanegol at eich ymweliad hyd at bedair wythnos cyn eich ymweliad yn amodol ar y cyfyngiadau uchod a'r capasati cyffredinol. Mae'n rhaid gwneud cais ysgrifenedig i [engage@parliament.uk](mailto:engage@parliament.uk).

Cyfrifoldeb trefnydd y grŵp yw gwirio bod y manylion yn gywir a sicrhau bod y grŵp addysgol yn mynychu Senedd y DU ar y diwrnod priodol ar yr adeg briodol ac yn cydymffurfio â'r amodau.

#### Cansladau

Os bydd Senedd y DU yn canslo taith sydd wedi'i chadarnhau ar ôl mynd i gostau gyda

darparwr teithio a ni all y grŵp gael ad-daliad, gall y grŵp hawlio iawndal llawn am gostau teithio'n unig. Bydd angen i'r grŵp ddarparu tystiolaeth ei fod wedi bod yn aflwyddiannus i gael ad-daliad a ffonio **0207 219 4496** neu e-bostio [engage@parliament.uk](mailto:engage@parliament.uk) i drafod ymhellach.

Os bydd grŵp yn dewis peidio â chael ad-daliad yn wirfoddol, ond yn parhau gyda'i daith i Lundain heb fynd ar Ymweliad Addysg â'r Senedd fel rhan o'r daith honno, ni chaiff hawlio ad-daliad costau teithio.

Gallwch ganslo (yn llawn neu'n rhannol) neu wneud cais i newid dyddiad neu amser Ymweliad Addysg wrth gysylltu â ni ar **0207 219 4496** neu e-bostio [engage@parliament.uk](mailto:engage@parliament.uk) i drafod. Mewn achos canslo, ni ellir gwneud hawliadau am Gymhorthdal Teithio.

### **Ymweliadau a drefnir ar ran ysgolion**

Gellir trefnu ymweliadau ar ran ysgolion gan sefydliadau addysgol trydydd parti a byddant yn amodol ar yr un nifer o ymwelwyr blynyddol ag ymweliadau a drefnir yn uniongyrchol gydag ysgolion (uchafswm 108 o ymwelwyr y flwyddyn), Gwneir cymhorthdal teithio ar gyfer y grwpiau hyn yn uniongyrchol trwy'r sefydliad trydydd parti. Anfonir gwybodaeth am y daith yn uniongyrchol i sefydliad y trydydd parti.

Mae'n rhaid i chi, ar gais, roi manylion (gan gynnwys enw cyswllt grŵp, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost) y grŵp rydych chi'n archebu ar ei ran. Mae'n rhaid i geisiadau trefnu ymweliad gynnwys manylion y grŵp ysgol sy'n mynychu pan y gofynnir amdanynt ac ni ellir eu trosglwyddo ar ôl derbyn cadarnhad archebu.

### **Yr hyn a gynigir**

#### **Ymweliadau Taith a Gweithdy (2awr 15 mun)**

Rydym yn cynnig nifer o weithdai â thema i chi eu dewis i ateb anghenion academiaidd eich grŵp orau. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys taith o gwmpas Dau Dŷ'r Senedd a allai gynnwys un neu'r ddwy Siambr fusnes. Cynhwysir hefyd yn y sesiwn hon weithdy rhyngweithiol 60 munud a gyflwynir yn ein Canolfan Addysg bwrpasol.

Mae'r sesiynau hyn yn addas ar gyfer plant a phobl ifanc 5-18 oed gyda'r cynnwys wedi'i addasu i ateb anghenion y grŵp oedran.

Rydym hefyd yn gwahodd AS lleol eich grŵp i ymuno â sesiwn Holi ac Ateb os byddant ar gael.

#### **Taith Stori'r Senedd (1 awr 30 mun)**

Mae ein sesiynau Stori'r Senedd yn cynnwys profiad ffilm 360 gradd 15 munud a ddilynir gan daith o amgylch Dau Dŷ'r Senedd.

Mae'r sesiynau hyn yn addas ar gyfer plant a phobl ifanc 7-18 oed gyda'r cynnwys wedi'i addasu i ateb anghenion y grŵp oedran.

#### **Taith yn unig (1 awr 15 mun)**

Os byddwch yn brin o amser neu os oes gennych grŵp o lai na 17 o bobl, efallai yr hoffech ystyried taith yn unig. Gellir trefnu'r rhain trwy gysylltu â'ch AS lleol a gofyn am

[Daith Mynediad Democrataidd](#) i Ysgolion. Mae'r rhain yn deithiau o amgylch Senedd y DU dan arweiniad tywysydd hyfforddedig ac yn amodol ar yr un meini prawf cymhwysedd ar gyfer Cymhorthdal Teithio ag ymweliadau a drefnwyd trwy'r tîm Addysg ac Ymgysylltu.

### **Profiad y Pwyllgor Dethol - cynnig tymhorol (2 awr 15 mun)**

Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys taith o gwmpas Dau Dŷ'r Senedd a allai gynnwys un neu'r ddwy Siambr fusnes. Cynhwysir hefyd yn y sesiwn hon weithdy rhyngweithiol 60 munud a gyflwynir yn ein Canolfan Addysg bwrpasol a gynllunnir i gwrdd ag anghenion myfyrwyr Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.

### **Canmoliaeth, Cwynion a Sylwadau**

Os hoffech gysylltu â ni gydag adborth ynghylch y broses o wneud cais am Gymhorthdal Teithio, dilynwch y ddolen [yma](#) a dewiswch y camau priodol.